

## CYNGOR CYMUNED LLANDDAROG COMMUNITY COUNCIL

### Cofnodion o gyfarfod Mis Mehefin 2019 Cyngor Cymuned Llanddarog a gynhaliwyd ar y 12/6/2019 yn Neuadd Porthyrhyd am 7.30pm

#### Minutes of the June 2019 meeting of Llanddarog Community Council held on the 12/6/2019 in Porthyrhyd Hall at 7.30pm

##### 50/2019-20 Presennol / Present:

Cynghorwyr / Councillors: R Newell (Cadeirydd / Chairman), R Jones, M Rees, J Williams O.B.E, W Evans, S Herridge, J Youens, H Jones, E Davies & R Owen.

Cyng Sir A Davies / *County Cllr A Davies*

Clerc / *Clerk & Cyfieithydd / Translator.*

2 Aelod o'r cyhoedd (un ohonynt o Bwyllgor Neuadd Llanddarog) /

*2 members of the public (one of which is from Llanddarog Hall Committee)*

##### 51/2019-20 Neuadd Llanddarog / Llanddarog Hall

Cyn i'r cyfarfod gael ei agor yn ffurfiol, diolchodd cynrychiolydd o bwyllgor Neuadd Llanddarog i'r Cyngor am ei grant refeniw sefydlog o £500. Rhoddodd drosolwg o'r math eang o ddefnyddwyr y Neuadd a'i gweithgareddau. Ar ôl cael ei ddiolch am ei bresenoldeb, gadawodd yr unigolyn y cyfarfod am 7.35pm, heb ddychwelyd. Fe'i cynghorwyd nad oes angen i bwyllgor Neuadd Llanddarog fynychu cyfarfod o'r Cyngor eto am y tymor hwn os byddent yn derbyn taliadau grant refeniw sefydlog pellach. / *Before the meeting was formally opened, a representative from Llanddarog Hall Committee thanked the Council for its standing revenue grant of £500 and provided an overview of the wide range of users of the Hall and its activities. Upon being thanked for his attendance, the individual left the meeting at 7.35pm, not to return. He was advised that Llanddarog Hall Committee does not need to attend a Council meeting again for this term should it receive further standing revenue grants payments.*

##### 52/2019-20 Ymddiheuriadau / Apologies.

Dim / *None.*

##### 53/2019-20 Datganiadau o fuddiannau personol / Declarations of personal interest.

Dim / *None.*

##### 54/2019-20 Cyfle i'r cyhoedd i annerch y Cyngor ar eitemau'r agenda / Opportunity for the public to address the Council on agenda items

Anerchodd aelod o'r cyhoedd y Cyngor ar eitem 14 ar yr agenda (pryderon a godwyd yn ardal Cwm Hebog). Teimlai'r Aelodau y gallai achosion o dipio anghyfreithlon yng Nghwm Hebog fod yn gysylltiedig â'r newidiadau diweddar a weithredwyd gan y Cyngor Sir yn Tip cyfagos Nant y Caws. Nodwyd nad yw'r Cyngor Cymuned wedi derbyn ateb uniongyrchol gan y Cyngor Sir eto o ran y pryderon y mae wedi codi am y newidiadau hyn, er bod ymateb cael ei gyfeirio at y Cynghorydd Sir A Davies (fe wnaeth Cyng Davies fynegi pryderon ar ran y Cyngor). Penderfynwyd mynd ar ôl ateb gan y Cyngor Sir a hefyd cheisio cael gwybodaeth wrthynt am sut y byddent yn monitro/gorfodi tipio anghyfreithlon yn sgil y newidiadau yn Nant y caws. Penderfynwyd ymhellach y dylid gofyn i'r Cyngor Sir edrych yn benodol ar y materion yng Nghwm Hebog. Ar ôl cael ei ddiolch am ei bresenoldeb, gadawodd yr unigolyn y

cyfarfod am 7.45pm, heb ddychwelyd. / *A member of the public addressed the Council on agenda item 14 (Concerns raised in Cwm Hebog area). Members felt that instances of fly tipping at Cwm Hebog could well be linked to the recent changes implemented by the County Council at the nearby Nant y Caws tip. It was noted that the Community Council has yet to receive a direct reply from the County Council as to the concerns it has raised about these changes, albeit a reply was directed to County Cllr A Davies who had raised concerns on the Community Council's behalf. It was resolved to chase a reply from the County Council and to seek out information from the County Council on how it will be monitoring / enforcing fly tipping in light of the changes at Nant y Caws. Further resolved that the County Council is to be asked to look specifically at the issues at Cwm Hebog. Upon being thanked for his attendance, the individual left the meeting at 7.45pm, not to return.*

**55/2019-20 Materion Plismona a diogelwch ffyrdd / Policing and Road Safety Matters**

Mae materion dal i'w ddatrys yn dilyn cyfarfodydd blaenorol, gan gynnwys yr arwydd ffordd yn Llanddarog. At hynny, nid yw'r Cyngor wedi derbyn data'r arolwg cyflymder ar gyfer Porthyrhyd y gofynnwyd amdano yn flaenorol. Penderfynwyd gofyn am ymateb gan y Cyngor Sir a / neu'r heddlu ynghylch y materion hyn. Hefyd, nododd yr Aelodau hefyd y sefyllfa gyda diffyg cyfarfodydd heddlu cymunedol PACT a gynhaliwyd yn ddiweddar. / *There are still issues to be addressed following previous meetings, including the road sign in Llanddarog. Furthermore, the Council has still not received the speed survey data for Porthyrhyd which had been asked for previously. It was resolved to seek a reply from the County Council and / or the Police as to these issues. Members also noted the position with the lack of PACT community police meetings held recently.*

**56/2019-20 Materion Cyngor Sir - Cyng Sir A Davies / County Council matters - County Cllr A Davies**

Darparodd y Cynghorydd Sir A Davies diweddariad ar ddigwyddiadau o fewn y Cyngor Sir. Ymddiheurodd nad oedd wedi gallu mynychu cinio blynyddol y Cyngor Cymuned. Mae wedi cynnal cyfarfod i drafod y potensial i arwyddion fflachio cyflymder traffig ym Mhorthyrhyd. Bydd y Cyngor Sir yn darparu prisiau ar gyfer yr arwyddion cyn bo hir. Cadarnhaodd fod y darn o'r ffordd i'r pysgodfeydd ym Mynyddcerrig ar restr priffyrdd y Cyngor Sir. Rhoddodd ddiweddariad ar y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig a'r Strategaeth Gorfforaethol. Cyn bo hir bydd Cyng Sir Davies yn cwrdd â'r swyddog rheoli datblygu newydd ar gyfer ardal Llanddarog. Mae hi wedi sicrhau y bydd y Cyngor Sir yn anfon ysgubwyr ffordd allan yn y cyfnod cyn cynnal Sioe Llanddarog. Penderfynwyd diolch i'r Cynghorydd Sir A Davies am ei hadroddiad. / *County Cllr A Davies provided an update on events within the County Council. She apologised that she had been unable to attend the Community Council's Annual Dinner. She has held a meeting to discuss the potential for flashing traffic speed signs in Porthyrhyd. Prices for the signs will be provided by the County Council shortly. She confirmed that the stretch of road to the Fisheries in Mynyddcerrig is on the County Council's highways schedule. She provided updates on the Revised Local Development Plan and the Corporate Strategy. She will shortly be meeting the new Development Management Officer for the Llanddarog area. She has ensured that the County Council will be sending a road sweeper out in the run up to Llanddarog Show. It was resolved to thank County Cllr A Davies for her report.*

**57/2019-20 Adroddiad y Cadeirydd / Chairman's Report**

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r Cyfarfod. Diolchodd i bawb am fod yn bresennol yn y cinio blynyddol a'r gwasanaeth cymunedol. Aeth y casgliad gwasanaeth cymunedol i Ambiwylans Awyr Cymru. Mae pethau yn symud ymlaen yn briodol o ran sicrhau carreg o gwar Torcoed ar gyfer osod cofeb ryfel ym Mhorthyrhyd. Penderfynwyd diolch i'r Cadeirydd am ei adroddiad. / *The Chairman welcomed everyone to the meeting. He thanked all for their attendance at the Annual Dinner and Community Service. The Community Service collection went to the Wales Air Ambulance. Progress has been made on securing a stone from Torcoed Quarry for the placing of a war memorial in Porthyrhyd. Resolved to thank the Chairman for his report.*

**58/2019-20 Cadarnhau ac arwyddo Cofnodion Cyfarfodydd y Cyngor ar 8/5/19 (Cyfarfod Blynyddol a Mai misol) / Confirmation and signing of the Minutes of the Council Meetings 8/5/19 (AGM and May monthly)**

Ar ôl cynnig gan y Cyng J Williams ac eilio gan Cyng R Owen; penderynwyd cadarnhau a llofnodi'r cofnodion (dan law'r cadeirydd llywyddol) / *Following a proposal by Cllr J Williams and seconding by Cllr R Owen, it was resolved to confirm and sign the minutes (under the hand of the presiding chairman).*

**59/2019-20 Materion yn Codi o'r cofnodion uchod / Matters arising from the above minutes.**

(a) **Yng Cofnod 30/2019-20(d)** - Mae'r Aelodau'n dal i bryderu am ymddangosiad y bocsys ffôn yn Is y Llan, Llanddarog a gyferbyn â'r Prince of Wales, Porthyrhyd. Penderfynwyd y dylai'r Cyngor geisio cael adborth wrth BT ar sut y gellir mynd i'r afael â'r materion hyn, ac i ffeindio allan os mae adolygiad o gadw'r blychau ffôn yma ar y gweill gan BT. Bydd y mater hwn yn cael ei roi ar agenda cyfarfod nesaf y Cyngor. / **Minute 30/2019-20(d) refers** – *Members are still concerned by the appearance of the phoneboxes at Is y Llan, Llanddarog and opposite the Prince of Wales, Porthyrhyd. It was resolved that the Council seek feedback from BT as to how these issues can be addressed, and whether a review of their retention as phone boxes by BT is planned. This matter will be placed on the agenda of the next Council meeting.*

(b) **Yng Cofnod 42/2019-20** - Ymatebodd y Cynghorydd M Rees ar ran y Cyngor. Penderfynwyd nodi. / **Minute 42/2019-20 refers** – *Cllr M Rees responded on behalf of the Council. It was resolved to note.*

(c) **Yng cofnod 43/2019-20** - Bydd y Cynghorydd M Rees a'r Clerc yn cymryd rhan mewn Webinar gan y Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC) a bydd y Cyngor Cymuned yn talu amdano (£130+vat). Penderfynwyd nodi. / **Minute 43/2019-20 refers** – *Cllr M Rees and the Clerk will take part in a webinar by the Society of Local Council Clerks which is to be paid for by the Community Council (£130+vat). It was resolved to note.*

**60/2019-20** Gohebiaeth / Correspondence.

(a) Nodwyd yr eitemau isod / *The below items were noted.*

<b>Wrth / From</b>	<b>Testun / Subject</b>
<b>Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner</b>	Cylchlythr / <i>Newsletter</i>
<b>Ymchwilydd Teledu / TV Researcher</b>	Rhaglen S4C <i>programme</i> - Trysorau'r Teulu
<b>Cwar Torcoed Quarry</b>	Hysbyseb oriau gweithio anarferol Mai a Mehefin 2019 / <i>Notice out of hours of working May and June 2019</i>
<b>Cymorth Cynllunio Cymru / Planning Aid Wales</b>	Cylchlythr a Digwyddiadau/ hyfforddiant (gan gynnwys digwyddiad ar y cyd gyda Un Llais Cymru 11/6/19) / <i>Newsletter and Events / training (including joint event with One Voice Wales 11/6/19)</i>
<b>Chwarae Cymru / Play Wales</b>	Cyhoeddiadau, canllawiau a gwahoddiad ymuno / <i>Publications, guidance and invite to join</i>
<b>Cadeirydd Cyngor Cymuned Llannon / Llannon Community Council Chairman</b>	Yn estyn gwahoddiad i cadeirydd y Cyngor Cymuned (+1) i fynychu Digwyddiad Dathlu yn Neuadd y Tymbl ar Dydd Sadwrn 1af Mehefin - Ysgol Llwyfan Y Tymbl / <i>Extends an invitation to the chairman of the Council (+1) to attend a Celebration Event at Tumble Hall on Saturday 1st June at 18:30 – Tumble Stage School.</i>
<b>Cyngor Sir Caerfyrddin / Carmarthenshire County Council</b>	(a) Grant llwybrau diogel mewn cymunedau (b) Ffioedd am Gladdu Plant 2019/2020 (c) agenda drafft ar gyfer y Fforwm Cyswllt Cyngorau Tref a Chymuned a gynhelir ar 19 Mehefin 2019 am 6 yr hwyr. (d) Mae busnesau yn Sir Gaerfyrddin yn cael eu hannog i addurno ffenestri eu siop neu eu swyddfa yn ystod Taith Merched OVO Energy. Mae cymal olaf ras feicio fwyaf nodedig Prydain i ferched yn cael ei gynnal yn y sir ddydd Sadwrn, 15 Mehefin ac rydym am roi croeso mawr i feicwyr gorau'r byd. / <i>(a) Safe routes in communities grant (b) Child Burial Fees 2019/2020 (c) draft agenda for the Community &amp; Town Council Liaison Forum meeting, scheduled for 19 June 2019 at 6pm. (d) Businesses in Carmarthenshire are being urged to give their shop or office windows a makeover for the OVO Energy Women's Tour. The final stage of Britain's most prestigious women's cycle race is taking place in the county on Saturday, June 15 and we want to give the world's top riders a big welcome.</i>
<b>Cyngor Sir Caerfyrddin - gwefan / Carmarthenshire County Council website</b>	Mae tudalen ymgynghori y Cyngor Sir (ar y 3 Mehefin 2019) fel y ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynllun Cydraddoldeb Strategol - Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal o 03/05/2019 i 14/06/2019;</li> <li>• Newid Natur y Darpariaeth - Ysgol Y Ddwylan, Ysgol Griffith Jones, Ysgol Llangynnwr ac Ysgol Llys Hywel - Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal o 20/05/2019 i 30/06/2019;</li> <li>• Mynedfa Newydd i Neuadd y Dre, Llanelli - Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal o 20/05/2019 i 28/06/2019;</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>Newid Natur y Darpariaeth - Ysgol Rhys Prichard - Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal o 20/05/2019 i 30/06/2019.</li> </ul> <p><i>The County Council's consultations website lists the following as on 3 June 2019:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li><i>Strategic Equality Plan - This consultation runs from 03/05/2019 to 14/06/2019;</i></li> <li><i>Change in Nature of Provision - Ysgol Y Ddwylan, Ysgol Griffith Jones, Ysgol Llangynnwr and Ysgol Llys Hywel - This consultation runs from 20/05/2019 to 30/06/2019;</i></li> <li><i>Proposed New Access to the Town Hall, Llanelli - This consultation runs from 20/05/2019 to 28/06/2019;</i></li> <li><i>Change in Nature of Provision - Ysgol Rhys Prichard - This consultation runs from 20/05/2019 to 30/06/2019.</i></li> </ul>
<b>Un Llais Cymru / One Voice Wales</b>	(a) Bwletin newyddion (b) swydd gwag swyddog datblygu (c) Hyfforddiant (d) Cynhadledd Arfer Arloesol Un Llais Cymru - 10 Gorffennaf 2019 - Hafod a Hendre, Maes y Sioe Amaethyddol (e) Modylau Dysgu ar-lein sylfaenol / (a) news bulletin (b) vacancy for development officer (c) training (d) Innovative Practice Conference - 10 July 2019 - Hafod a Hendre Royal Welsh Showground (e) Basic on-line learning modules.
<b>Keep Britain Tidy</b>	Gwybodaeth / Information
<b>Cyngor Cymuned Gorslas / Gorslas Community Council</b>	Gwahoddiad i fynychu hyfforddiant iechyd a diogelwch ar 13 Mehefin 2019 - dim tâl (er bod cyfraniad at logi'r neuadd yn cael ei groesawu) <b>wedi'i ohirio</b> / Invitation to attend health and safety training on June 13 2019 – no charge (albeit contribution to the hire of hall welcomed) – <b>postponed</b>
<b>Cronfa Calor Fund</b>	Pleidleisio am grantiau y gronfa cymunedol / Voting for grants under the community fund
<b>Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol / Office of the Future Generations Commissioner</b>	Cyhoeddi lansiad sgwrs genedlaethol, Cymru Ein Dyfodol, a gynhelir ar 6 Mehefin a gwybodaeth am dygwyddiadau – gan gynnwys Caerfyddin ar 20 Mehefin 2019 / Launch of national conversation, Our Future Wales, which will take place on 6 June and information on events – including one in Carmarthen on the 20 June 2019.

(b) Gweithredoedd yn sgil ohebiaeth / Actions resulting from correspondence:

**1 Clwb Ffermwr Ifanc Llanddarog – Gardd y CFfi, Llanddarog.** Gaeth diweddariad o'r Clwb ei ddsbarthu i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Mae'r Ardd bellach wedi'i chlirio ac mae'r Clwb am osod slabiau, gwaelod concrit, seddi a charreg newydd ar y safle. Nid oedd Aelodau'r Cyngor yn ystyried bod angen rhoi'r mater hwn ar agenda cyfarfod mis nesaf. Penderfynwyd ni fyddai'r Cyngor yn gwrthwynebu'r cynlluniau, ar yr amod bod y clwb yn ymgysylltu â chontractwr torri gwair y cyngor cymuned ynghyd â'r adrannau perthnasol o fewn y Cyngor Sir. / **Llanddarog Young Farmer's – YFC Garden, Llanddarog.** An update from the Club had been circulated to Members in advance of the meeting. The Garden has now been cleared and the Club is seeking to place slabs, concrete base, seating and a new stone on the site. Council Members did not consider that this matter needed to be placed on the agenda

of next month's meeting. Resolved that no objection be made by the Council to the plans, subject to the Club engaging with the Community Council's grass cutting contractor along with the relevant departments within the County Council.

**2 Un Llais Cymru** – Model Broctocol ar gyfer datrysiaidau anffurfiol – arolwg defnydd. Nid yw'r Cyngor wedi mabwysiadu'r protocol hyd yn hyn. Penderfynwyd byddai'r Clerc yn ymateb i'r arolwg ar ran y Cyngor. / **One Voice Wales** - Model informal resolution protocol – survey on its use. The Council has not yet adopted the protocol. Resolved that the Clerk reply to the survey on behalf of the Council.

**3 Swyddfa Archwilio Cymru** - Webinar 2/7/19 - Trefniadau Archwiliad Mewnol mewn Cyngorau Tref a Chymuned yng Nghymru. Penderfynwyd byddai'r Clerc yn gofyn a gellir rhannu hwn gydag Archwilydd Mewnol y Cyngor am gyfrifon 18/19 yn ogystal. / **Wales Audit Office** - Internal Audit Arrangements at Town and Community Councils in Wales Webinar 2/7/19. Resolved that the Clerk ask if this can also be shared with the Council's Internal Auditor for the 18/19 accounts.

#### **61/2019-20 Materion Cynllunio / Planning Matters**

Dim / None.

#### **62/2019-20 Taliadau/ Payments**

Cadarnhawyd yr isod / The below were ratified

Rhif Siec / Cheque Number	Dyddiad/ Date	Cyflenwr a manylion/ Suppliers and details	Swm/ Sum £ Gross
1448	15/05/19	Cyflog a lwfans Clerc ar ol treth - cyfnod 2 Clerk salary and allowances after tax period 2	369.24
1449	15/05/19	WCVA – Cyflogres - payroll agent Mai / May 2019	20.10
1450	15/05/19	Cyng / Cllr R Newell – Cyllideb ddinesig Cadeirydd / Chairman civic budget s137	300
1451	15/05/19	Neuadd Llanddarog Hall – Grant Refiniw / Revenue Grant	500
1452	15/05/19	Llesiant Porthyrhyd Welfare – Grant Refiniw / Revenue Grant	500
1453	15/05/19	Llesiant Mynyddcerrig Welfare – Grant Refiniw / Revenue Grant	500
1454	15/05/19	Sioe Llanddarog Show – Noddi / Sponsorship	200
1455	15/05/19	Treialon Cwn Defaid Cenedlaethol Cymru, Gwyl Fwyd a Crefftau 2019, Parc Dinefwr, Llandeilo (Awst 2019) / 2019 Welsh National Sheep Dog Trials, Food & Craft Festival, Dinefwr Park, Llandeilo (August 2019) s137 – rhodd / donation	80
1456	15/05/19	Ambiwlans Awyr Cymru / Wales Air Ambulance s137 – rhodd / donation	80
1457	15/05/19	Shopmobility Caerfyrddin / Carmarthen Shopmobility s137 – rhodd / donation	80
1458	15/05/19	St John Cymru Wales - s137 – rhodd / donation	80
1459	15/05/19	Bopath Cymru / Bopath Wales s137 – rhodd / donation	80
1460	15/05/19	Neuadd Llanddarog Hall – Llogi / Hire 8/5/19	12
1461	15/05/19	Ysiwrrant BHIB Insurance – adnewyddu polisi / policy renewal	857.02

1462	15/05/19	Menter Gwasanaethau – cyfieithu 2 cyfarfod / <i>translation of 2 meetings</i>	199.65
1463	07/06/19	Coles – White Hart, Llanddarog – cinio i gwestai y Cyngor yn y cinio flynyddol (gwobr y gymuned x2 a gwobr yr ieuencid x2) – <i>dinner for Council's guests at the annual dinner (community award x2 and young people's award x2) s137</i>	53.35

### **63/2019-20 Derbyniadau /Receipts**

Dim / None.

### **64/2019-20 Cysgodfa arfaethedig newydd yn Llanddarog /**

#### **Proposed new shelter in Llanddarog**

Mae'r Cyngor eisoes wedi dewis BC shelters fel y cyflenwr lloches a ffafrir am y gost o £4,290 ynghyd â THAW. Mae'r Cyng J Williams bellach wedi sicrhau dyfyniad ysgrifenedig o £476.42 wrth Mr Ken Gibbard i wneud gwaith cynorthwyol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cael gwared ar y sedd a'r posibilrwydd o adleoli'r hysbysfwrdd. Mae'r rhaglen prosiectau arbennig yn cynnwys £3,850 ar hyn o bryd, gyda swm lwfans o £1,000 ychwanegol i'w symud i mewn i'r rhaglen o gronfeydd cyffredinol er mwyn cyflawni'r prosiect lloches yn y flwyddyn ariannol 19/20. Mae'r tiffeddiannwr wedi cytuno i'r lloches i gael ei osod ar y safle. Nid oedd yr Aelodau o'r farn bod angen cysylltu ag adran briffyrdd y Cyngor Sir, ond fe wnaethant ofyn i'r Cynghorydd Sir A Davies gysylltu â'r adran gynllunio. Roedd yr Aelodau wrth eu boddau bod un o flaenoriaethau allweddol y Cyngor ar gyfer y tymor presennol yn agos at gael ei gyflawni. Penderfynwyd, yn dilyn adborth gan y cynllunwyr (yn arbennig ar liw'r lloches), bod y Clerc yn cael awdurdod i godi archeb swyddogol gyda BC Shelters am y swm o £4,290 ynghyd â THAW. Mae'r Cyng J Williams yn cael awdurdod i gyfarwyddo Mr Ken Gibbard ar sail ei ddyfynbris a nid oedd y Cyngor am cael rhagor o brisiau. Bydd y rhaglen prosiectau arbennig yn cael ei ychwanegu ato ymhellach gan symiau sydd angen o falensau cyffredinol er mwyn cyflawni'r prosiect hwn o fewn y flwyddyn ariannol bresennol. Bydd y Cyngor hefyd yn ceisio cael prisiau ar gyfer cael gwared â llwyni o flaen y safle maes o law./

*The Council has already identified BC shelters as the preferred shelter supplier for the cost of £4,290 plus VAT. Cllr J Williams has now secured a written quote of £476.42 from Mr Ken Gibbard to undertake supporting works. These works include removal of the seat and potential relocation of notice board. The Special projects programme currently contains £3,850, with an allowance for an additional £1,000 to be moved into it from general funds in order to deliver the Shelter project in the 19/20 financial year. The landowner has agreed for the shelter to be placed on the site. Members did not think it necessary to liaise with the highways department of the County Council, however they did ask County Cllr A Davies to liaise with the planning department. Members were delighted that one of the Council's key priorities for the current term is close to being delivered. Resolved that following feedback from the planners (notably on the colour of the shelter), the Clerk is given authority to raise an official order with BC shelters for the sum of £4,290 plus VAT. Cllr J Williams is authorised to instruct Mr Ken Gibbard on the basis of his quote and the Council did not wish to attain further quotes. The special projects programme will be further supplemented by the required funds from general balances in order to deliver this project within the current financial year. The Council will also attain prices for the removal of shrubs in front of the site in due course.*

**65/2019-20 Pryderon ynglŷn â thir yn ardal Cwm Hebog, Porthyrhyd /**  
**Concerns with regards land in Cwm Hebog area of Porthyrhyd.**

Roedd y Cyngor eisoes wedi ystyried y mater hwn - gweler y cofnod 54/2019-20.  
Penderfynwyd nodi. / *This matter had already been considered by the Council – see*  
*minute 54/2019-20. Resolved to note.*

**66/2019-20 Adroddiad yr Archwilydd Mewnol ar gyfer cyfrifon 2018-2019 /**  
**Internal Auditor's report for 2018-2019 accounts**

Roedd pob Aelod wedi cael copi o Adroddiad yr Archwilydd Mewnol o flaen llaw'r Cyfarfod. Roedd yr Aelodau yn hapus i nodi nad oedd unrhyw bryderon wedi ei nodi ynddi ynglŷn â'r cyfrifon a bod y dychweliad blynyddol wedi ei arwyddo. Dylid nodi fod y cyfeiriad at arolygydd (ac nid archwilydd) ar yr agenda yn wall cyfieithu. Mae hwn yn berthnasol at unrhyw gyfeiriad arall o'r fath yn agendas/cofnodion blaenorol. Fe benderfynwyd derbyn yr adroddiad. / *Each Member had been provided with the Internal Auditor's Report in advance of the meeting. Members were pleased to note that there were no concerns raised in relation to the accounts and that the annual return had been signed. Reference was made to a translation error in the welsh language minutes/agenda for the term auditor. It was resolved to accept the report.*

**67/2019-20 Cymeradwyo'r Cyfrifon Blynyddol a'r Dychweliad Blynyddol am 2018-19 /**  
**Approval of the Annual Accounts and Annual Return for 2018-19**

Roedd pob Aelod wedi cael copi o'r dychweliad ariannol o flaen llaw'r Cyfarfod. Roedd hyn yn cynnwys y datganiad o'r cyfrifon a'r datganiad llywodraethu blynyddol. Cadarnhaodd y Clerc fe fydd gofynion hysbysebu'r archwiliad yn cael ei chwrrd, a fydd y cyfrifon ar gael i'r cyhoedd yn unol ag anghenion y rheoliadau. Fe roddwyd esboniad ysgrifenedig i'r Aelodau lle'r oedd amrywiant materol o ffigurau blwyddyn ddiwethaf ynghyd a'r cysoniad at y banc. Hefyd fe roddwyd adroddiad ysgrifenedig i'r Aelodau a luniwyd i gefnogi atebion y Cyngor yn rhan 2 y datganiad llywodraethu blynyddol (gan gynnwys cadarnhad fod y Cyngor wedi mabwysiadu rheoliadau sefydlog a rheoliadau ariannol). Ar ôl cynnig gan y Cyng J Williams ac eilio gan Cyng M Rees; penderfynwyd ardystio a chymeradwyo'r ffurflen flynyddol. Fe lofnododd y Cadeirydd Cyng R Newell a'r Clerc / Swyddog Ariannol Cyfrifol y ffurflen. Fe fydd y Clerc yn arwain y wybodaeth ymlaen at yr Ymchwilydd Allanol. /

*Each Member had received a copy of the annual return in advance of the meeting. This included the statement of accounts and the annual governance statement. The Clerk confirmed that publicity requirements will be met, and the accounts will be made available for the public in accordance with regulatory requirements. Members had been provided with a written explanation of instances where there were material variances with last year's figures and had also been provided with the bank reconciliation. Members were also provided with a written report compiled to support the Council's answers for part 2 of the annual governance statement (including confirmation that the Council has adopted standing orders and financial regulations). Following a proposal by Cllr J Williams and seconding by Cllr M Rees, it was resolved that the annual return be approved and certified. The Chairman Cllr R Newell and the Clerk/RFO signed the form. The Clerk will forward the information to the External Auditor.*



**68/2019-20 Cynrychiolydd cymunedol ar gorff Llywodraethol Ysgol Llanddarog / Community representative on Llanddarog School's Governing Body**

Mae'r Cyngor Sir wedi cadarnhau bod tymor Mr T Jones yn dod i ben ar 23 Mai 2020. Penderfynwyd bod y Cyngor Cymuned yn gadael Mr T Jones fel llywodraethwr cymunedol ond dylid gofyn iddo ddarparu adroddiadau ar weithgarwch yr ysgol i'r Cyngor Cymuned ar sail gyfnodol. (Cyfeiriwyd hefyd at ddatblygu llif gwybodaeth ddwy ffordd fel y gall y Cyngor gynorthwyo gyda unrhyw bryderon perthnasol neu ddysgu am unrhyw digwyddiadau ac ati). / *The County Council has confirmed that the term of Mr T Jones expires on 23 May 2020. Resolved that the Community Council leave Mr T Jones as the community governor but that he be asked to provide reports on School activity to the Community Council on a periodical basis. (Reference was also made to developing a two way flow of information so that the Council can assist with any relevant concerns or learn of events etc).*

**69/2019-20 Eisteddfod yr Urdd 2021 - Llanymddyfri Urdd Eisteddfod 2021 – Llandovery**

Nid yw'r Cyngor wedi derbyn llythyr yn gofyn am gyllid hyd yma, ond ystyrir ei bod yn rhesymegol dechrau meddwl ymlaen a chyllidebu. Deallir mai targed codi arian ward etholiadol Llanddarog yw £8,000. Penderfynwyd y dylid gwneud lwfansau yn y gyllidebau refeniw 2020/2021 a 2021/2022 gyda'r symiau i'w cadarnhau maes o law. / *The Council has yet to receive a letter requesting funding, however it is considered logical to start thinking ahead and budgeting. It is understood that the Llanddarog electoral ward fundraising target is £8,000. Resolved that allowances be made in the 2020/2021 and 2021/2022 revenue budgets with the sums to be confirmed in due course.*

**70/2019-20 Fforwm er mwyn i Aelodau i godi adroddiadau / cwestiynau drwy'r Cadeirydd /**

Forum in order for Members to raise reports / questions through the Chairman.

(a) Rhoddodd y Cyng J Youens adborth o gyfarfodyd Grŵp Cynghorau Cymuned y Gwendraeth yn ddiweddar. Penderfynwyd diolch i'r Cyng J Youens am ei hadroddiad. / *Cllr J Youens provided feedback from the recent Gwendraeth Group of Community Councils meeting. Resolved to thank Cllr J Youens for her report.*

(b) Rhoddodd y Cyng. S Herridge adborth o ddigwyddiad hanes Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn ddiweddar. Penderfynwyd diolch i'r Cyng. S Herridge am ei hadroddiad ac i wahodd cynrychiolydd o'r gerddi i ddod i un o gyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol. / *Cllr S Herridge provided feedback from the recent National Botanic Gardens of Wales history event. Resolved to thank Cllr S Herridge for her report and invite a representative from the Gardens to attend a future Council meeting.*

(c) Cyfeiriodd y Cyng. R Jones at lwyddiant diweddar ysgol Llanddarog yn yr Eisteddfod. Penderfynwyd bod y Cyngor yn anfon llythyr o ganmoliaeth at yr ysgol. / *Cllr R Jones referred to Llanddarog School's success at the recent Eisteddfod. Resolved that a letter of congratulation be sent from the Council to the School.*

(d) Fe wnaeth Cyng J Williams ofyn os fyddai modd ystyried wardio y Cyngor Cymuned. Penderfynwyd rhestr y mater ar agenda cyfarfod mis Gorffennaf 2019 y Cyngor. / *Cllr J Williams asked if it was possible to consider warding the Community Council. Resolved that this matter be placed on the agenda of the July 2019 meeting of the Council.*

**71/2019-20 Mewn camera/ In camera**

Fe wnaeth y rhai nad oeddynt yn Aelodau'r Cyngor Cymuned, neu'r Clerc, adael am 9.12pm - heb ddychwelyd. Mae'r gwahardd oherwydd materion masnachol personél /staff yn cael ei thrafod / Those who were not Community Council Members, or the Clerk, departed at 9.12pm, not to return. The exclusion is due to personnel / staffing matters being discussed.

**72/2019-20 Materion Cyflog a Iwfansau Cyfnod 3 2019-20 / Salary and allowances matters period 3 2019-20**

Fe wnaeth bob Aelod derbyn copi o'r adroddiad o flaen llaw. Fe benderfynwyd derbyn yr adroddiad a chadarnhau talu'r symiau fel y cyflwynwyd (gan gynnwys ol-ddaliad). (Nodwyd yn sgil cofnod 337/2018-19(a) bod cyngor ysgrifenedig gan Un Llais Cymru wedi cael ei rhoi i bob Aelod o flaen llaw'r cyfarfod). / *Each Member had been provided with a written report in advance of the meeting. It was resolved to accept the report and ratify payment of sums as presented (including back-pay). (It was noted that in respect of minute 337/2018-19(a) that written advice from One Voice Wales had been provided to each Councillor in advance of the meeting.*

**73/2019-20 Adolygiad parhaol o sefyllfa ymrestru awtomatig / Continued review of auto enrolment position**

Fe wnaeth bob Aelod dderbyn adroddiad ysgrifenedig o flaen llaw'r cyfarfod. Fe wnaeth yr adroddiad amlinellu'r sefyllfa bresennol o ran cymhwysedd y Clerc ar gyfer ymrestru awtomatig. Nid yw'r Clerc wedi gofyn i ymuno gyda chynllun. Penderfynwyd nodi'r adolygiad fel y ganlyn. / *Each Member had been provided with a written report in advance of the meeting. The report outlined the present position in relation to the Clerk's eligibility for auto enrolment. The Clerk has not asked to join a scheme. Resolved to note the review accordingly.*

**74/2019-20 Daeth y cyfarfod i ben am 9.20pm / The meeting finished at 9.20pm**